# Ciosg Adwerthu i'w Osod

**Canol Tref Caerfyrddin**
**Heol y Capel**
**Caerfyrddin**
**SA31 1QE**




**Ciosg 3 ar gael**
**Yng nghanol tref Caerfyrddin**

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

# Disgrifiad

**Gwahoddir ceisiadau am denantiaeth gyfnodol ciosg 3 yn Heol y Capel, Caerfyrddin ar delerau hyblyg tan ddiwedd mis Mehefin 2026.**

# Manylion Allweddol

**Mae'r cyfle hwn ar gael ar gyfer Ciosg 3**

**Mae gan Giosg 3 le adwerthu tua 10 metr sgwâr a gwerth rhentu o £30 yr wythnos. Byddai ardrethi busnes ac unrhyw filiau ychwanegol (gan gynnwys dŵr a thrydan) yn gost ychwanegol i'r busnes.**

**Mae'r gofod adwerthu yn addas ar gyfer amrywiaeth o ddibenion, ac mae entrepreneuriaid sydd â busnesau newydd yn cael eu hannog, ynghyd ag adwerthwyr annibynnol sydd â chynnig unigryw i ategu'r hyn sydd eisoes ar gael yn y dref. Byddai'n ofynnol i fusnesau llwyddiannus osod ffitiadau yn y gofod adwerthu.**

**Felly, bydd ceisiadau'n cael eu hystyried yn bennaf ar sail y defnydd arfaethedig ac addasrwydd o safbwynt adfywio.**

# Dyddiad cau

**Rhaid cyflwyno ceisiadau erbyn HANNER DYDD, ddydd Gwener 02 Mai 2025. Mae modd dychwelyd ceisiadau drwy anfon neges e-bost i markets@sirgar.gov.uk neu i Swyddfa'r Farchnad, Siop Allanol 8, Marchnad Caerfyrddin, Ffordd y Farchnad, Caerfyrddin SA31 1QY**

# I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Mae modd cael rhagor o wybodaeth a ffurflenni cais drwy anfon neges e-bost i markets@sirgar.gov.uk**

You will need to operate bilingually according to the Council's policies including interior and exterior bilingual signs in the property. There is an advice and assistance service as well as free translation and proof-reading available. For information, go to www.carmarthenshire.gov.wales/home/business and click on 'Welsh Language in business'

For information and help to work biligually, go to www.carmarthenshire.gov.wales/home/business and click on 'Welsh Language in business'

These particulars are intended to give a fair description of the property, but are set out for guidance only. Their accuracy cannot be guaranteed and you should satisfy yourself by inspection or otherwise as to their correctness. Carmarthenshire County Council is obliged to consider all offers received in respect of this property up until the exchange of contracts. It is not obliged to accept the highest or any offer.

Bwriad y manylion hyn yw rhoi disgrifiad teg o'r eiddo, ond canllaw ydynt yn unig. Nid oes modd gwarantu eu cywirdeb a dylech chi fodloni eich hun eu bod yn gywir, drwy eu harchwilio neu fel arall. Mae rheidrwydd ar Gyngor Sir Caerfyrddin i ystyried pob cynnig a ddaw i law am yr eiddo hwn hyd nes bod y contractau'n cael eu cyfnewid. Nid oes rheidrwydd arno i dderbyn unrhyw gynnig.